# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION
## IONAWR 2013

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 16eg Ionawr |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Neuadd Llanwnda |
| **AELODAU'N BRESENNOL** | Gwilym V.Thomas (Cad), Michelle Williams, Nerys Evans, Rhys Owen, Meurig Williams, Gwilym L.Williams, Jason Hunt |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Bethan Williams, Clerc |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso** |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Elin Evans, Elwyn Jones |
| 3. | **Datgan Buddiant** |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion**<br>Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, yn gywir. |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br><br>a. NE – cynnig ffurfiol i beidio dod i Ganolfan Llanwnda eto nes bydd y broblem draenio wedi'i setlo.  Pawb yn cytuno.<br>b. EE – dwr ar y ffordd o gwmpas Felinwnda/Saron – poeni fod 'na gulvert wedi cau rhwng Rhosgawen ca Ysgol Felinwnda – gofyn am gael cameras. Tyllau yn y ffyrdd ymhobman.<br>c. Cais gan Mr.Arwel Jones i geisio cael cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Siop Gwyled.  Trafodwyd y mater, a soniwyd fod gwr busnes lleol wedi datgan diddordeb ac yn ystyried y mater, felly rydym fel cyngor yn gadael i'r mater fod ar hyn o bryd.  Efallai bydd angen trafod eto yn y dyfodol.<br>d. Cais gan Mr.a Mrs.Melfyn Jones i bwyso ar Gyngor Gwynedd i ystyried wneud gwaith ychwanegol ar yr afon – gofyn i gael cyfarfod efo swyddogion i drafod ymhellach.  Anfon llythyr i Gyngor Gwynedd yn datgan fod yr aelodau yn gresynu'n arw am y sefyllfa, a pwyso arnynt i weithredu ar fyrder.<br>e. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Lein Bryngwyn – angen trafod taliad i I.T.Davies – cytuno i dalu rhan-daliad £12,000 erbyn 1af Chwefror.<br>Caeau Chwarae Rhosgadfan a Rhostryfan.  Adroddodd y clerc fod pwyllgor cae chwarae Rhosgadfan yn ymddangos yn weithgar iawn, ac yn trefnu digwyddiadau cyson i godi arian.<br>Adroddodd hefyd fod gwaith yn cychwyn ar gae chwarae Rhostryfan yr wythnos nesa, gyda'r offer yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. |
| 7. | **Is-bwyllgorau** |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw:<br>Cyfri Siec:<br>Taliadau:<br>Cyflog/costau clerc – mis Rhagfyr a Ionawr<br>Arian parod<br>Zurich – yswiriant blynyddol<br><br>Ceisiadau nawdd i'w trafod ym mis Chwefror | <br>17,127.97<br>3328.97<br><br>1034.14<br>500.00<br>1058.21 |

| | |
|---|---|
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Wedi cael caniatad i ychwanegu at y fynwent.<br>Cwynion am Gadlys.<br>Ymgynghoriad ar bolisi Tyrbeini Gwynt – oherwydd natur yr amgylchedd naturiol yma yn yr ardal – aneffeithiol, hagru'r tirwedd, dim cefnogaeth gan y gymuned leol.<br><br>C12/0854/24/LL – ail gyflwyno cais am 4 ty dros y ffordd i Gapel Gorffwysfa – gwrthwynebu ar yr un sail a'r dau dro diwethaf<br>C12/1648/24/RC – diddymu cytundeb cyfreithiol sydd yn cyfyngu'r eiddo ar gyfer person sydd wedi'i gyflogi mewn amaethyddiaeth – Tyddyn Derwen (Tyddyn Bach), Dinas, Llanwnda – dim sylw. |
| 10. | **Gohebiaeth:**<br>a. Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol – dod i ben 31.01.13<br>b. Ymgynghoriad Cyngor Iechyd Cymunedol – crynodeb o'r ymatebion |
| 11. | **Materion mis nesa**<br>a. MW – Rhes Ganol – lôn wedi'i malurio<br>b. RhO- tyllau ar y ffyrdd<br>c. NE – mater cynllunio – dwy adwy wedi'u hagor yn Rhos Isaf, cais cynllunio i mewn ond does dim penderfyniad wedi'i wneud. Pasio hwn ymlaen i Aeron M.Jones i'w drafod efo'r swyddogion.<br>d. GVT – dau dy yn Gwelfor yn wag ers deng mis.<br>e. GVT – arwydd ger Bodfan ddim yn gweithio.<br>f. GVT – bwlch yn y wal yn Allt Pen y Gwylwyr |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm |